YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1899. [RHIF 138.

"YR HYN A GYSYLLTODD DUW NA WAHANED DYN."

(Parhad o'r Rhifyn diweddaf.)

———

NEU cymerwch bwynt arall mewn dadl—y pwnc o wyrthiau sydd wedi bod yn achlysur i gymaint o chwerwder. Mae y syniad o wyrth wedi ei sylfaenu ar y ffurf hono o'r ddau allu sydd yn gwahanu teyrnas natur oddiwrth Deyrnas y Goruwchnaturiol. Gosodir y naill gyferbyn a'r llall. Dywedir fod gwyrth yn cael ei chyflawni pan mae'r gallu sydd yn teyrnasu yn nhiriogaeth y Goruwchnaturiol yn ymyru neu yn diorseddu y gallu sydd yn teyrnasu yn nhiriogaeth natur neu ddeddf. Yn awr, mae gwir Undodiaeth heddyw yn dyweyd nad oes ond un gallu, un diriogaeth, un bydysawd. Dywed wrthym nas gallwn ni byth fyned tuhwnt i diriogaeth natur, a'n bod ni yno bob amser yn nhiriogaeth y Goruwchnaturiol. I'r Undodwr, i'r hwn sydd yn credu mewn undeb, mae holl natur yn rhyfeddod anhraethadwy, yn wyrth anferthol; ond mae ei holl wyrthiau a'r deddfau o dan ba rai y maent wedi eu cyflawni heb eu chwilio genym eto. Nid yw yr Undodwr, fel y cyhuddir ef yn aml, yn gwadu y posiblrwydd o wyrth. Yn hytrach, mae yn credu fod bywyd ei hunan yn wyrth fawr a holl-gynwysfawr.

Yr un fath gyda'r ddadl o berthynas i natur Crist. Mae y syniad poblogaidd yn edrych ar y natur hono fel yn ddyblyg. Llefara am ei dwy ochr, y dynol a'r Dwyfol, y syniad yn cael ei gario weithiau mor belled ag i wneyd yr Iesu yn euog o'r annidwylledd gwaethaf, megys, er engraifft, yn yr adnod hono lle y mae mor bendant yn ymwadu â hollwybodaeth, yr ydys wedi ei ddeongli fel yn golygu, er na wyddai Efe fel dyn pa bryd oedd Dydd y Farn i fod, eto, Efe a wyddai fel Duw. Yn awr, mae Undodiaeth, wrth fod yn driw i'r egwyddor o "Undeb," yn dysgu yn ei ystyr uchaf symlrwydd pur natur Crist. Gan ymgodi uwchlaw

pob gwrthddadl isel ar y mater, 'dyw hi ddim yn gwadu un o'r safleoedd a gymerir gan Iawnffyddiaeth. 'Dyw hi ddim yn gwadu natur Ddwyfol na natur ddynol yr Iesu; ond y mae yn gwneyd y gosodiad mawr fod y ddwy natur yn un; fod Crist yn Ddwyfol am Ei fod mor hollol ac mor ardderchog o ddynol, Ei fod yn Fab Duw am Ei fod mor wirioneddol yn fab dyn. Ei ddynoliaeth roddodd iddo Ei ddwyfoldeb, ac yr oedd Ei ddwyfoldeb yn ddynoliaeth bur a dyrchafedig. Nid oedd ond un natur yn Nghrist. Mewn symlrwydd saif yn frenin.

Trwy yr olwg yma ar natur Crist, arweinir ni i gymhwyso swyn y gair Undod at y cwestiwn uchaf o'r oll—cwestiwn ein natur ein hunain, ein perthynas â Duw. Mae hyn yn ein dwyn ni at Athrawiaeth yr Iawn.

Mae Athrawiaeth yr Iawn yn ymorphwys ar y syniad o ddau allu, trwy yr hwn y gosodir dyn allan fel ar wahan oddiwrth Dduw. Ei meddylddrych ganolog yw—Duw i'r lân acw, dyn 'lawr yma. Sut y gellir croesi y gagendor rhwng y ddau? Pwy a'n cluda ni drosodd, neu pwy a ddug Duw i lawr atom ni? Beth fydd cyfrwng y cymod? Caniatewch chwi unwaith fodolaeth y gagendor a dybir yn gyffredin sydd yn bodoli rhwng y dynol a'r Dwyfol; ac o'm rhan fy hun 'dwy i'n gwybod am un cynllun gwell i'w groesi na'r athrawiaeth ddiweddar o'r Iawn, pan y mae wedi eu hamddifadu o lawer o'u hagweddau mwyaf gwrthun. Os oes rhaid i ni gael cyfrwng i fyned drosodd yn ddyogel, dyma'r cyfrwng mwyaf cyfrwys a pherffaith a ddyfeisiwyd erioed gan ddychymyg dyn. Ond fel Undodiaid, sydd yn credu mewn "Undeb," yr ydym yn gwadu bodolaeth y gagendor. O ganlyniad, yr ydym yn gwadu yr angen am un cyfrwng i groesi y gagendor. Yn lle adwy rhwng y dynol a'r Dwyfol, mae yna gysylltiad mor agos nes y mae yn hollol annatodadwy. Nid Duw i'r lân fry, a dyn 'lawr yma, ond Duw a dyn yma gyda'u gilydd. Calon Duw yma yn crefu, ac ysbryd dyn yma yn edifarhau. Duw yma, yn myned allan i gyfarfod â'r enaid sy'n d'od 'nol i dref, hyd nes y mae'r ddau yn un mewn ymwybodolrwydd a bywyd, fel y maent wedi bod yn un bob amser mewn natur a sylwedd.

Dyma'r gwirionedd diweddaf mewn Undodiaeth Athrawiaethol, ar yr hwn y rhaid iddi yn rhesymol gymeryd ei safle. Cychwynodd yn yr hen amser ar y gosodiad syml o undod Duw, mae wedi credu bellach fod Duw a'i holl blant yn un. Ei gwirionedd cyntaf oedd, Yr Arglwydd ein Duw un Arglwydd yw, a'i enw sydd un. Ei gair diweddaf ac uchaf yw ei sicrwydd ardderchog y gall pob enaid dynol ddyweyd eto o waelodion ei ymwybodolrwydd dwyfol, "Myfi a'r Tad, un ydym," gan ddysgu ysbryd Crist Ei Hunan.

Bydded i ni eto gymhwyso y gwirionedd hwn at ochr ymarferol bywyd, ac ni a welwn fod llawer o'n camsyniadau a'n hamheuon yn codi, i fesur mawr, o'n bod ni yn gwahanu yr hyn a gysylltodd Duw, neu yn ceisio yn ofer i wasanaethu dau arglwydd yn lle un.

Edrychwn yn gyntaf gartref, ar y bywyd unigol hwn o'n heiddom, y byd neillduol hwnw a alwn ni yn bersonoliaeth pob un ohonom. Oddieithr ein bod ni yn hollol driw i'r egwyddor o "Undeb," mae yna nodyn aflafar yn tori ar gydgord ein bodolaeth ni. Fe ddylai y bywyd unigol hwn fod yn un bywyd. Pwy ohonom nad yw yn ceisio ei wneyd yn ddau? Pwy sydd nad yw yn ceisio dyblu ei fodolaeth, yn ceisio ymddangos yn rhywbeth gwahanol i'r hyn yw?

Yr ydych yn cofio yr ymadrodd hwnw yn yr Efengyl, yr ymddyddan hwnw rhwng Crist a Phedr, ag y mae ein brodyr y Pabyddion yn ymddibynu cymaint arno fel sylfaen Ysgrythyrol eu Heglwys. Fe ddywed yr Iesu wrth y dysgybl: "Ti yw Pedr, ac ar y graig hon yr adeiladaf Fy Eglwys." Yn ol fy marn i, mae yr ymadrodd yma yn rhoi awgrym gyfoethog o sylfaen yr Eglwys Undodaidd, yn hytrach na'r Eglwys Babyddol. Heddyw, pe byddai'r Iesu yn fyw, gallaf ddychymygu ei glywed yn dyweyd yr un geiriau pan yn canmol personoliaeth gref ei ddysgybl: "Ti yw Pedr, a phaid er mwyn y nefoedd ceisio bod yn neb arall; ac ar y graig hon o annibyniaeth yr adeiladaf fy Eglwys ddyfodol."

Ond ar y graig hon 'dyn' ni ddim wedi adeiladu. Yn lle bod yn driw i'n hunain, i undeb meddwl a gweithred; yn lle gwneyd ein bywyd allanol yn ddatguddiad syml o'r hyn yw y mewnol, yr ydym yn talu ein gwarogaeth i ddau allu; yr ydym bob amser yn ceisio gwneyd ein bywyd allanol yn fodolaeth arall a gwahanol. Yr ydym yn gosod dwy safon o flaen ein hunain; un i feddwl, a'r llall i wneyd ein meddwl yn hysbys; un i'n hunain, a'r llall i'r byd. Fel hyn yr ydym bob amser yn myned i rhyw dryblith anobeithiol o anghysondeb.

Gwaeth fyth yw'r cyfan hyn yn nhiriogaeth yr ysbryd, yn mherthynas dyn â Duw, lle mae'r cais i dalu parch i ddau fywyd, i ddwy safon, yn gwneyd rhagrith ofnadwy o'n crefydd, ac yn gwneyd sylweddau difrifol addoliad yn ddim ond ffug. 'Dyn' ni ddim yn foddlon ar wneyd ein bywyd allanol yn anffyddlon i'r weledigaeth fewnol; 'dyn' ni ddim yn foddlon ar ymddangosiad ffugiol mewn cymdeithas ac annidwylledd yn nyledswyddau beunyddiol bywyd; ond yr ydym yn beiddio cynyg i Dduw y bywyd allanol hwn, a dim ond hwnw. Ac yn y diwedd mae y pechod o geisio byw bywyd daublyg yn esgor ar farwolaeth; ac yr ydym yn gweled yn yr eglwysi heddyw, yr un fath ag yn yr hen amser, llawer i feddrod wedi ei wyngalchu, mor deg a'r marmor oddiallan, ond oddifewn yn llawn o esgyrn y meirw a phob aflendid.

Yn awr, fel *protest* yn erbyn y dylanwad niweidiol hwn, y mae Undodiaeth ymarferol yn gwneyd ei gosodiad mawr o ddyledswydd pob dyn ar ei ben ei hunan. Dywed wrth bob un ohonom Rhaid i'ch bywyd fod yn un bywyd, a hwnw yn perthyn i chwi. Mae yn gofyn genych, yn eich hymddygiad mewn cymdeithas, symlrwydd perffaith, gan ymwadu â phob ffug ac ymddangosiad. Mae yn gofyn genych yn eich hymdrafodaeth mewn busnes

uniondeb hollol. Ië, dyna'r hyn mae Undodiaeth wedi sefyll i fyny drosto bob amser. Mae yn gofyn genych uniondeb, undeb, cyfanrwydd, yn holl gysylltiadau bywyd. Mae yn eich galw chwi allan o dir eich caethiwed i ddau arglwydd, ac yn dyweyd wrthych, "Peidiwch ymddangos, ond byddwch. Byddwch fyw y bywyd sydd yn perthyn i chwi. Codwch uwchlaw ofn a ffafr y byd, a pheidiwch troi ar y de nac ar yr aswy, ond ewch ar hyd yr unig lwybr y mae Duw wedi nodi allan i'ch enaid, er i'r llwybr hwnw eich arwain chwi yn union at y Groes. Uwchlaw pobpeth, mae yn gofyn genych ddyfod at Dduw yn eich ffordd eich hunan. Yn eich crefydd ofnwch a chedwch oddiwrth bob credo sydd yn tueddu i wneyd eich crefydd yn beth estronol i'ch bywyd gwirioneddol, neu eich arwain chwi i ragrith a ffug. Mewn uniondeb calon, rhoddwch i Dduw eich bywyd eich hunan, gan gymeryd trafferth i'w wneyd yn sylwedd gwerth ei roi. De'wch at Dduw yn eich ffordd eich hunan. Gweddïwch eich gweddïau eich hunan. Edifarhewch yn eich ffordd eich hunan. Sefwch i fyny dros eich dynoliaeth eich hunan. Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunan, a boed cywilydd arnoch i fod yn foddlon ar unrhyw iachawdwriaeth sydd wedi cael ei gweithio allan drostoch gan rywun arall.

Ond mae perygl i ni gario y syniad yma yn rhy bell—i wahanu bywyd yr unigol oddiwrth y byd, i dori bywyd yr un oddiwrth fywyd dynoliaeth. Ar y naill ochr mae gyda ni ffurf o'r ddau allu sydd yn esgor ar ffug, ar annidwylledd, a rhagrith; ac ar yr ochr arall, mae gyda ni achos hunangariad cymdeithasol, a difaterwch crefyddol; oblegid ni a wyddom mai tuedd bywyd unigol yw ymgadw ar ben ei hunan, a gadael i gyfeiliornadau ac i drueni'r byd ymdaro fel y gallant. Ni a wyddom am lawer i Undodwr sydd yn gaeth i'r olwg gyfeiliornus hon. Mae maes o gydymdeimlad â bywyd cymdeithasol, ac yn crechwenu arno. Mae yn byw uwchlaw holl driciau *politics*, ac nid ä yn agos atynt i godi ei fys bach er mwyn eu rhwystro a dangos ffordd well. Ymgeidw yn mhell o addoliad grefyddol ei frodyr; dywed nas gall efe weled dim ynddo ond ofergoeledd a ffolineb; ac o ran ei hunan, fod yn well ganddo fyned i'r nefoedd wrtho'i hunan.

Ond mae Undodiaeth yn datgan "Undeb" hanfodol yr unigolyn â'r byd. Mae yn ceryddu yr hunangariad, y balchder, a'r difaterwch o gau ein hunain allan o gydymdeimlad â'r byd tufaes i ni, trwy ddyweyd nas gall neb fyw iddo'i hunan; fod holl fuddianau uchaf pob dyn wedi eu gwau i fywyd ac i dynged yr hiliogaeth. Y cwestiwn hanfodol y mae Undodiaeth wedi ceisio ei benderfynu yw, Sut y gallwn ni, yn y byd hwn, sydd mor llawn o gydymgais ac o anhawsderau, wneyd ein dyledswydd yn unol â'r foeseg Gristionogol uchaf? Sut y gallwn ni gydweithio gyda'r amcan o buro cymdeithas, o leihau swm gwaeau dynol, ychwanegu at swm hapusrwydd dynol, ac o ddyrchafu safon dyledswydd ddynol?

Er cael atebiad i'r cwestiwn, fe ddeil Undodiaeth y rhaid iddo

dd'od ar linell un o brif *factors* gwareiddiad, sef yr *idea* o addysg. Fe daflodd Lessing, tua chanrif yn ol, ffrwd o oleuni ar y canrifoedd, trwy ein dysgu i edrych ar hanes cenedloedd fel addysg Ddwyfol yr hiliogaeth ddynol. Oddiar yr adeg hono, ar faes ymdrechion cymdeithasol, yr ydys wedi astudio ac wedi ymdrin â phob drwg oddiar safbwynt addysg; mae y gwellhad a'r ataliad wedi eu sicrhau yn ol graddau y ddoethineb a'r cywirdeb yr ydys wedi cymhwyso ato yr ysbryd a'r dull addysgol. Heddyw, yr ydym yn ymddibynu yn hollol ar gyfrwng addysg i sylweddoli posiblrwydd y bôd unigol, ac i berffeithio cymdeithas ddynol. Yr uchelgais yma am addysg, a'i chwaer, y cymhelliad dyngarol, yw prif gymhelliadau ein gwareiddiad. Lle yr arferid Bedydd unwaith er sicrhau ffafr y nefoedd i'r plentyn, yr ydym yn awr yn darparu amgylchedd a wna ddadblygu ei holl bwerau. Lle yr arferid y Groes i yru ymaith yr ysbrydion drwg, er dyogelu iechyd y plentyn, yr ydym yn awr yn ei ddysgu i redeg a neidio, er mwyn dadblygu a pherffeithio ei gyfansoddiad. Lle yr astudid y Catecism er mwyn mogi nwydau drwg, yr ydym yn rhoddi gwaith i'r llaw er codi fyny y dyn perffaith.

Y ddewines, yr hon a drosglwyddid gynt i afaelion y dienyddwr, a osodir yn awr o dan ofal dynion gwybodus ag ydynt yn gwneyd eu goreu trwy gyfryngau moesol a naturiol i adferu y meddwl i'w gyflwr priodol. Y dall, a erchid gynt i gyffwrdd â rhyw weddillion cysegredig er mwyn cael eu gwella, a ddysgir yn awr i ddarllen, ac i ddyfod i gydnabyddiaeth â'r byd prydferth yn yr hwn y maent wedi eu gosod. Y gwallgof, y rhai a esgeulusid gynt, ac yr edrychid arnynt fel engraifft nodedig o adgasedd Duw at bechod, a ddysgir yn ofalus yn awr; a thrwy yr ychydig gyneddfau sydd yn eu meddiant, a ddyrchefir i urddas eu dynoliaeth. Yn y fel hyn, mae ymddibyniad ar gyfrwng goruwchnaturiol wedi rhoddi lle i ymddibyniad ar ddeddf naturiol, a'r dull addysgol wedi diorseddu y defodau a'r seremonïau. Wrth ddeongli bywyd, ni a welwn mai yr hyn mae Duw yn hawlio, yr hyn mae ar ddyn eisieu, mai gogoniant dynoliaeth yw perffeithiad y dyn hwnw trwy addysg—nid ysgol yn unig a'i gwna ef yn enillwr bara mwy effeithiol, ond dysgyblaeth a'i gwna ef yn ddyn mwy cyflawn—nid gwrtaith y pen yn unig, ond y galon hefyd. Mae Undodiaeth yn dyweyd wrthym am fyw un bywyd, ac i gysegru yr un bywyd hwnw mewn pob didwylledd a symlrwydd i un amcan, i wasanaethu eich un arglwydd—dynoliaeth.

Ond yma, drachefn, mae llais yn dyweyd wrthym am beidio rhedeg i berygl. Dywed, "Na, y mae genych o hyd ddau arglwydd y mae eich gwasanaeth yn ddyledus iddynt—Duw a dynoliaeth. Gwyliwch na fyddoch i ddiystyru hawliau Duw, oblegid y mae Efe am yr holl glod a gogoniant sydd yn ddyledus i'w enw, i'w wasanaeth, a'i addoliad, cyn eich bod yn dangos eich gweithredoedd o gariad ac o drugaredd tuag at eich cyd-ddynion." Ond y mae ysbryd nerthol Undodiaeth yn ateb, fel y mae wedi ateb, trwy yr holl ymrafaelion yma, mewn *dogma* a bywyd: "Ni

ellwch wasanaethu dau arglwydd." "Ond un yw eich Athraw chwi, sef Crist." Ond beth yw ystyr hyna heddyw. Ei ystyr yw, Duw mewn dynoliaeth. Mae gwasanaeth Duw a gwasanaeth dyn yr un. Oblegid, i ba gyfeiriad bynag y trowch chwi eich golygon, chwi welwch ddelw Duw—y bywydau yn y rhai y mae Efe yn byw, yn ymsymud, ac yn bod heddyw. Yno, gan hyny, mae eich hunig wasanaeth chwi, eich hunig ofal, a'ch hunig waith. Gwnewch eich holl ddyledswydd at ddyn mewn ysbryd cariad ac ymgysegriad, ac yr ydych wedi gwneyd eich holl ddyledswydd at Dduw.

CWYN COLL T. E.

GALARWN am ein harweinydd—anwyl;
Ac adseinia'r gwledydd
Y mawr siom, yn Nghymru sydd,
Am wr enwog Meirionydd.

* * *

Yr heulwen hyd wybren las Ebrill
A ddringai yn araf i'r lân;
Ac aml flaguryn agorai
Ei lygad yn gysglyd a gwan.

'R oedd blodau yr eithin yn agor
Yn euraidd hyd ochr y bryn,
A'r hen fynydd mawr yn gwawr-lasu,
A'r ŵyn fel yr eira o wyn.

Ond bysedd angeuol y gauaf
A roed ar yr haf yn ei gryd,
Rhoed cyntaf-anedig y cymoedd
Dan amwisg o eira i gyd.

* * *

Y blod'yn agorodd mor foreu
Ar lethr Cymroaidd y bryn,
Gan storom ddu angeu osodwyd
Yn sydyn dan amwisg o wyn.

* * *

'E hunodd dan balmwydd y dehau,
Dan awyr ragorol ei gwawr;
Ond huno mae heddyw'n ei haeddiant
Mewn daear a garodd mor fawr.

* * *

Galarwn, ond nid yn ddiobaith,
Rhaid yw i farwolaeth ei awr;
Trwm ddagrau y nos a ordeiniwyd
Gan Luniwr goleuni y wawr.

Yr afon ddifawyd gan chwäon
Yn nghanol yr haf ar ei hynt—
Mae eto ar gael yn y nefoedd,
A'i nodd yn mhob awel o wynt.

Ac felly'th Anwylyd, O Walia,
Er cwyno ei goll mewn tristâd,
Ei ysbryd a leinw'r awelon
Am oesau ar fryniau ei wlad.

SARNICOL.

HEN GATECISM ANGHOFIEDIG.

GALL fod gwahaniaeth barn am y dull goreu o drosglwyddo gwybodaeth grefyddol i blant; ond ymddengys i mi fod unrhyw ddull yn well na dwyn y plant i fyny mewn anwybodaeth. Y mae rhagfarn gan rai yn erbyn catecismau o bob math; er hyny, y maent wedi profi yn gynorthwyon gwerthfawr yn y gorphenol. Perygl catecism, fel perygl credo, yw syrthio maes o ddêt, a chynal syniadau nad ydynt yn cael eu credu. Dyledswydd rhieni a dyledswydd athrawon yr Ysgol Sul yw dysgu egwyddorion crefydd fyw. Bydd hyny yn golygu eu bod, mor bell ag y gallant, yn gochelyd dysgu dim fydd y plentyn yn gorfod ei ddad-ddysgu wedi iddo dyfu i fyny—gochelyd dysgu dim fel gwir ag y maent hwy yn argyhoeddedig nad gwir yw.

Cawn fod amryw gatecismau wedi eu cyhoeddi gan yr enwad a wasanaethir gan yr YMOFYNYDD, o bryd i bryd, a gallwn ystyried pob un ohonynt yn dysgu *highwater-mark* syniadau eu tymhor. Heddyw y maent yn ddyddorol mewn ystyr hanesyddol, i ddangos treigl syniadau. Dyna yn gyntaf eiddo Jenkin Jones, Llwynrhydowen, yn 1732; eiddo Edward Evan, Aberdar, yn 1757, Cyfieithiad oedd y diweddaf hwn o un Samuel Bourne, a gyhoeddwyd yn 1737, a dywedir nad oes ynddo un cyfeiriad at y Drindod. Yn ddiweddarach cawn *Egwyddorwr* Theophilus Lindsey, ac *Apel* Dr. Priestley, ac y mae argraffiad diweddar o bob un o'r ddau. Y mae hefyd genym gyfieithiad o Gatecism bychan Dr. Channing.

Y mae wedi syrthio i rau y Parch. W. James, B.A., Y.H.,

Llandysul, i ddarganfod catecism nad oeddwn i erioed wedi clywed son am dano. Dyma'r desgrifiad :—

"*Holiadau ac Atebion*, er cyfarwyddyd i blant a phobl ieuainc, gan mwyaf wedi ei gymeryd allan o waith y Parch. James Pierce [*sic.*], gan y Parch. William Rees, Llwynrhydowen, wedi ei fwriadu iddo fod o les i'w blant ei hun, yn nghydag i laweroedd ereill. J. Evans, Argraffydd, Caerfyrddin. 8td. [*No date.* 1828 (?).]

Perthynai y copi hwn yn wreiddiol i Mr. James Thomas, Siop Rhydowen, un o brif golofnau yr achos yn y Llwyn yn ei ddydd, a chyfaill y ceir llawer cyfeiriad ato yn *Crwth Dyffryn Clettwr*. Deallwn i Mr. James brynu y llyfr yn ocsiwn ei fab, ac iddo ef y mae ysgrifenydd y llinellau hyn yn ddyledus am dano, a diolch yn fawr iddo am hyny.* Fe'i gosodir mewn lle dyogel mwy. Fel y dywedais, y mae yn werthfawr yn hanesyddol ac nid yn dduwinyddol. Ariaidd yw ei syniadau. Nid oes ynddo son am Drindod. Rhoddir yr atebion yn ngeiriau yr Ysgrythyr.

Bydd gair yn dderbyniol am y cyfieithydd. Tad y Parch. William Rees, Rhydygwin, oedd, ac fe'i ganwyd yn 1779. Aeth i Goleg Caerfyrddin yn 1800, urddwyd ef yn Cilgwyn yn 1804, symudodd oddiyno i gymeryd gofal Penybont a'r Bettws, yn Morganwg, ac oddiyno yn 1814 i fod yn gydweinidog â'r hyglod D. Dafis, Castell Hywel. Ei brif ofal oedd Penrhiw, a chartrefai yn Treale. Aeth wedi hyny i fyw i Gwmdyllest, wedi marw Mr. Dafis, efallai, yn 1827. Oddiyma, tua 1830, aeth i Brechfa, ac adeiladodd gapel Cwmwr Du. Bu farw Ebrill 4ydd, 1844. Helbulus oedd hi ar weinidog Undodaidd y tymhor hwnw, a chul oedd ei fywioliaeth, oni fyddai ganddo rywbeth i fyw arno heblaw ei gyflog.

Ganwyd Mr. Peirce [nid Pierce], awdwr y catecism, yn Llundain, tua 1673. Yr oedd ei rieni yn aelodau o eglwys yr enwog Matthew Mead (1629—1699), awdwr *Agrippa o fewn Ychydig*, y llyfr rhagorol hwnw a gyfieithwyd gan Jenkin Jones, Llwyn, ac a gyhoeddwyd ganddo yn 1723, pan oedd eto yn fyfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin. Collodd Mr. Peirce ei rieni pan tuag wyth oed, a chymerwyd ei ofal ef a'i chwaer am dymhor gan Mr. Mead. Wedi treulio yr amser angenrheidiol mewn Ysgol Ramadegol, aeth i Brifysgol Utrecht. Nid oedd Rhydychain a Chaergrawnt yn agored y pryd hwnw i Anghydffurfwyr. O Utrecht aeth i Leyden. Ar ol pum' mlynedd ar y Cyfandir dychwelodd adref.

Wedi gweinidogaethu am dymhor yn Nghaergrawnt a Newbery, ymsefydlodd yn Exeter yn 1713, ac yn 1719 trowyd ef o'r neilldu am heresi. Cychwynwyd achos y Mint yn Exeter yr

---

* Carwn yn fawr, Mr. Gol., weled copi o bob scrap o bob peth gyhoeddwyd gan Undodiaid Cymru yn Llyfrgell Rydd Caerdydd. Canys fe'i dyogelir yno, a gall y sawl a fyno ei weled pryd y myno. Y mae yno lawer eisoes, ond y mae llawer heb fod.

un flwyddyn, a bu yn gweinidogaethu yno hyd 1726, pan y fu farw yn ei 53 oed. Ceir hanes dyddorol iawn am dano yn *History of the Presbyterian Churches*, gan Jerome Murch. Ariad oedd o ran ei syniadau. Dymunai ei gyfeillion osod careg goffa deilwng ar ei fedd, a pharotowyd yr ysgrifen gan foneddwr o Lundain. Pan oedd y gareg tua haner parod, rhoddodd yr offeiriad awgrym fod ganddo ef hawl i wrthod unrhyw ysgrif na fyddai yn gymeradwy ganddo; ac wedi ei weled, gwrthododd ei genad. Wedi hyny, ceisiwyd cael gosod y geiriau hyn: "Here lies the rev. learned and pious Mr. James Peirce." Gwrthododd y rheithor dysgedig drachefn, gan ddywedyd, nas gallai Mr. Peirce gael ei alw yn "rev.," am nad oedd wedi ei urddo yn gyfreithlawn, nac yn *pious*, am ei fod yn dysgu cyfeiliornadau; a'r oll ganiatawyd i osod ar y bedd oedd:—

"Mr. James Peirce's Tomb, 1726."

Dyna fel y trinid Anghydffurfwyr yn y gorphenol, a dyna fel y trinir hwy eto yn y dyfodol, os caniateir llwyddiant i'r mudiad Eglwysig presenol. Cofiwn ddyoddefiadau ein tadau yn yr ymdrech am ryddid, a pheidiwn, rhag cywilydd, a gollwng y rhyddid hwnw i golli. Fe barheir hyd heddyw yr hawl i'r offeiriaid wrthod pob ysgrifen na fyddo ei chwim ef yn ei gymeradwyo.

R. J. J.

"ADDOLIAD CYHOEDDUS."

(Cymerwyd y canlynol allan o "Celt" Llundain, am Ebrill 22ain.)

DAETH cynulliad da i Essex Hall nos Sul diweddaf, i wrando Mr. D. Delta Evans ar "Addoliad Cyhoeddus." Ar ol canu un o hen emynau Iolo Morganwg, a darllen rhanau o'r Ysgrythyrau Iuddewig a Christionogol, darllenwyd dernyn prydferth ar "Addoliad," allan o ddywediadau Socrates, yr hen athronydd Groegaidd enwog, ac un o oleuadau dysgleiriaf y byd paganaidd dros bedwar can' mlynedd cyn amser Iesu o Nazareth. Wedi cynyg ychydig o sylwadau ar y drychfeddwl o addoli, dywedodd y siaradwr: "Y mae yn amlwg oddiwrth hanes yr hen Gymry, megys yr eiddo pob cenedl wareiddiedig arall, fod ein henafiaid boreuol yn arfer addoli amryw wrthddrychau, yn ol eu goleuni a'u gwybodaeth; ond fel y daethant i ddysgu meddwl, myfyrio, ac ymresymu, ac yn addfetach i dderbyn gyda sirioldeb bob gwawl a gweledigaeth newydd a wawriai arnynt o bryd i bryd o diriogaeth oleu'r byd ysbrydol;

fel y daethant yn raddol i ddiwyllio eu hunain yn foesol a meddyliol, ac i roi pob chwareu teg i ddadblygiad naturiol eu cyneddfau crefyddol—ffydd, gobaith, cariad, parchedigedd, delfrydedd, ac ardduniant; fel y daethant i ganfod swyddogaeth a dylanwad eneideg, ac i ddeall yn well eu hangenion meddyliol ac ysbrydol; ac fel y daeth gwareiddiad cynyddol i'w llywodraethu, eu haddysgu, a'u dyrchafu; yn gyfatebol i hyny y daethant i addoli yr UN Duw byw, yr Hwn yn unig sydd yn deilwng o gael ymgrymu o'i flaen, a'r Hwn ni ddyry Ei ogoniant i arall."

Yna aethpwyd yn mlaen i ddangos fel y mae'r gyneddf addolgar yn hanfodol mewn dyn: "Addoliad yn ei ystyr uchaf ydyw datganiad o deimladau goreu, coethaf, tyneraf, a mwyaf dwyfol dyn—dymuniadau puraf y galon, dyheadau mwyaf angerddol yr enaid. Ac y mae'r elfen addolgar hon yn trwytho bywyd gwareiddiedig ac anwar dynoliaeth yn mhob cŵr o'r byd. Y mae yn nghymeriad y llwythau tywyllaf, gwylltaf, a mwyaf anwar, cyflwr cymdeithasol isel ac anifeilaidd, y rhai sydd yn fynych yn peri i galon ddynoliaeth oleuedig waedu wrth feddwl am danynt, a'r rhai ar amserau sy'n destyn gwawd a gwaradwydd i genedloedd y ddaear; y mae hyd yn nod yn nghymeriadau y rhai hyn o leiaf un nodwedd ag sydd ar unwaith yn ein hadgoffa mai bodau dynol ydynt—*y maent yn addoli!* Y mae eu haddoliad yn llymrig a phlentynaidd, hwyrach, yn ein golwg ni; dichon fod eu credo yn ofergoelus, eu defodaeth yn ffurfiol a llygredig, a'u duw yn ddim ond dernyn o bren neu delpyn o glai: ni waeth o hyny—anwybodaeth ydyw; y mae'r *sentiment*, y teimlad, y reddf, yr awyddfryd, pa enw bynag roddwn arno—y mae hwnw yno, yn barod i ymestyn at ddrychfeddylian uwch a mwy urddasol. Pan ymegyr y deall i weledigaeth eangach o'r greadigaeth; pan feddalheir y galon gan serchiadau tynerach, purach, a gwell; pan ddeffroir y gydwybod i synwyr cliriach a mwy craff o rinwedd a chamwedd; pan ddaw'r cyneddfau moesol i fedru barnu yn fwy cyfiawn, ac i amcangyfrif yn fwy cywir; a phan oleuir y meddwl gan belydrau dysglaer y Wybodaeth hono sydd i gyrhaedd 'o fôr i fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear;' yna, y duedd addolgar acw ag sydd yn awr yn cymhell ei pherchenog i isel-grymu ger bron delw gerfiedig nad yw, ond odid, yn cynrychioli dim ond corffolaeth o greulondeb a gormes, a gyfyd i deimlad o barchedigedd gwir urddasol, ac i amgyffred aruchel o ragoroldeb perffaith ar ddelw Bôd tragywyddol, tirion, tadol, cyfiawn, a da."

Dan y pen o "Addoliad Cyhoeddus fel moddion diwylliant," awgrymwyd mai "cymdeithasfa ydyw trefn osodedig Doethineb Dragywyddol i ddadblygu cyneddfau goreu ein natur." Ac y mae "Addoliad Cyhoeddus" yn ffurfio un o nodweddion prydferthaf, gwerthfawrocaf, a mwyaf addysgiadol cymdeithasfa. Y mae cyfuniad dedwydd o "O swn Efengyl" a sain melus cân a moliant yn tueddu yn barhaus i ddiwyllio hunanbarch dyladwy, i fawrhau cariad a charedigrwydd, ac i nawseiddio cydymdeimlad câr a chydryw, nes bo'r naill yn d'od o hyd i sylweddoli yn well ei

ymddibyniad ar y llall, a'r oll ar eu gilydd. Ac fel yna y mae rhwymau bendigedig y ddaear yn galw allan yr holl serchiadau Nefol.

"Yn hyn yn arbenig y canfyddir gwerth a buddioldeb 'Addoliad Cyhoeddus.' Y mae yn help i fywyd crefyddol, siriol, a rhinweddol. Os na chofiwch chwi ddim arall a ddywedaf heno, buasai yn werth i chwi wneyd ymdrech i gofio hyn—*fod Addoliad Cyhoeddus yn help i fywyd crefyddol.* Cyffelybai Iesu Deyrnas Dduw—breniniaeth y Dwyfol yn yr enaid dynol—i ryw hedyn bychan, yr hwn, os meithrinir ef yn ofalus, a dyf yn bren mawr, cadarn, a ffrwythlawn. Ac er fod Iesu yn dysgu cymaint mewn dull ffugr a dameg, yr oedd Ei addysgiadau ysbrydol Ef bob amser yn berffaith gyson â gwirioneddau adnabyddus a safadwy athroniaeth naturiol, yr hyn a gadarnheir fwy-fwy gan wybodaeth helaethach â darganfyddiadau gwyddoniaeth dwy fil o flynyddau.

Yn awr, ynte, yn y byd anianol, rhaid i bob hedyn pan yn egino o'r ddaear wrth amryw elfenau i'w gadw'n fyw; rhaid iddo fod mewn tir ag sy'n dygymod âg ef, oblegid o'r tir odditano y sugna'r eginyn brif foddion ei gynaliaeth; rhaid iddo hefyd wrth ddylanwadau cydnaws o'i amgylch, megys gwres, awyr, gwlych, a goleuni, yn ogystal a chysgod rhag gwyntoedd goroerion a thywydd garw. Felly yr un ffunud yn y byd ysbrydol. Pan fo hedyn tyner duwioldeb yn blaguro allan o ddaear y galon ddynol, rhaid amaethu'r galon ei hun fel ag i helpu ei dyfiant a'i gryfhad; rhaid iddo wrth wres cariad cymydogion a chydnabod: rhaid iddo wrth gawodydd hyfryd mawl a gweddi; rhaid iddo wrth awelon rhadlawn *cymdeithasiad* dynion da; mewn gair, rhaid iddo wrth ddylanwadau mwynion gwlith a gwlaw, a heulwen y nen; a rhaid iddo hefyd wrth gysgod clyd rhag effeithiau dinystriol ystormydd geirwon bywyd. Dylai "Addoliad Cyhoeddus" yn sicr gyfarfod yr holl angenion ysbrydol hyn o eiddo dyn—os *nad* yw yn gwneuthur hyny, prin y mae yn cyrhaedd ei amcan. Profiad cyffredinol y rhai sy'n arfer cyfranogi ohono mewn ysbryd cywir a gostyngedig, modd bynag, yw ei fod—

"Yn gysgod rhag y gwynt a'r gwres,
Yn lloches rhag y gelyn;
Yn obaith byw, a hedd o hyd,
Yn nghanol byd o ddychryn."

Nid ydwyf yn awgrymu o gwbl fod "Addoliad Cyhoeddus" yn *amcan* ynddo'i hunan; *cynorthwy* ydyw i gyrhaedd amcanion uchaf bywyd. Ac nis gellir rhoi gormod o bris arno fel moddion diwylliant crefyddol, fel moddion i ddyfrhau a meithrin hedyn duwioldeb yn enaid y person unigol, fel moddion i'w gryfhau a'i ddynoleiddio yn ei fywyd beunyddiol, i'w arfogi a'i wroli i wynebu yn ddigryn ymosodiadau parhaus llu o elynion materol, meddyliol, ac ysbrydol. Onid yn hyn y gorwedd dirgelwch pa faint

bynag o grefydd ymarferol sy'n aros mewn cymdeithas, a chnewullyn bywyd moesegol pob gwlad a chenedl?

Ac er cymaint o esgeuluso a dirmygu sydd arno, y mae'n gysur cofio fod ei ddylanwad pelydraidd er daioni yn treiddio cartrefleoedd a bywydau miloedd o esgeuluswyr, ac yn creu awel sancteiddiol a anedlir ganddynt yn barhaus, er, efallai, yn ddiarwybod iddynt eu hunain; ac fel hyn cedwir hwy mewn gwell iechyd a chryfder meddyliol a moesol nag a fuasai'n bosibl pe bai "Addoliad Cyhoeddus" yn llai cyffredinol. Gan hyny, buasai diddymiant y sefydliad hwn yn drychineb i'n gwlad ni, ac yn wir i'r byd i gyd. Ein hyder yw y daw "Addoliad Cyhoeddus" cyn bo hir yn llawer mwy poblogaidd gyda'r werin, ac y cynydda mewn purdeb a phrydferthwch sancteiddrwydd yn enaid pob cenedl."

ARHOLIAD BLYNYDDOL YR YSGOL SUL.

CEISIODD y Parch. Arthur Thomas, Ysgrifenydd arbenig Adran yr Ysgol Sul, genyf i wneyd pwt o adroddiad o'r uchod, ac mae'n dda genyf i'w osod o flaen darllenwyr yr YMOFYNYDD. Cymerodd y trydydd Arholiad Blynyddol le ar nos Fercher, y trydydd o Fai, mewn deg o *centres* yn sir Aberteifi, a dwy yn unig yn Morganwg. Drwg genyf fod dwy Ysgol wedi diflanu o'r golwg yn yr Arholiad yma, sef Llanbedr a Chefncoedycymer. Yr oedd iddynt enw nid anenwog yn yr Arholiadau blaenorol, ond gwelsant yn dda i ddileu eu coffadwriaeth o'r tir mor bell ag oedd a fyno â'r Arholiad presenol. Pa le hefyd mae Ysgolion Dowlais, Cwmbach, y Wig, Pentre, a Chwm Clydach? A all fod rhyw reswm heblaw cysgadrwydd a difaterwch i gyfrif am eu habsenoldeb? A all fod unrhyw anhawsder gwerth son am dano ar ffordd parotoi plant yn Safonau 1 a 2, a gadael Safonau 3 a 4 allan o'r cwestiwn? Mae hwn yn waith ellid ei wneyd yn rhwydd a didrafferth yn yr Ysgol o Sul i Sul, ac nid oes eisieu help y gweinidog o gwbl i wneyd yr addysg yn effeithiol.

A ydyw hefyd yn ormod i ddysgwyl oddiwrth weinidogion i gyflwyno rhyw un awr o ryw un nos yn yr wythnos am rhyw bedwar neu bum' mis cyn yr Arholiad, i barotoi pobl ieuainc yn Safonau 3 a 4? Mae hyn yn cael ei wneyd bob blwyddyn yn Trebanos, Rhydygwin, Pantdefaid, Llandysul, &c., a phaham nad yw yn mhob man? O ddiffyg gweinidog, mae un o aelodau Llwynrhydowen yn cynal y dosbarth yn ei dŷ ei hun, ac y mae y Parch. T. Thomas, yn ei hen ddyddiau fel ag y mae, wedi bod yn cynal adran Dyffryn Clettwr o ddosbarth Beiblaidd Pantdefaid yn Green Park. Dyma'r ysbryd i ymgymeryd â'r gwaith, ac nid

dwyn yn mlaen rhyw fân esgusodion, ydynt bob amser wrth law, dros ochelyd dyledswydd a ddylai fod yn agos at ein calonau ni gyd.

Fel canlyniad difaterwch rhai o'n Hysgolion, mae nifer yr ymgeiswyr eleni yn llai nag oeddent y llynedd. Yn 1898 yr oedd rhif yr ymgeiswyr llwyddianus yn 265, yn 1899 maent wedi myned i lawr i 249. Gwnaed cynydd mawr ar gyfer yr ail arholiad, ond aeth y llanw yn drai erbyn y trydydd. A gawn ni oll wneyd ymdrech i gael y llanw yn ol eto y flwyddyn nesaf? Mae yn ein gallu, ond i fod yn effro i'n galwedigaeth; a thrwy fod ein Hysgolion Sul yn deffroi, mae gobaith i'r deffroad i wneyd ei hun yn amlwg yn ein cynulleidfaoedd, lle y mae cymaint o'i eisieu.

Mae'n dygwydd yn aml gyda threfniadau newydd, fod camgymeriadau yn cael eu gwneyd. Fel mae gwaethaf y modd, mae rhai wedi methu deall fod yr Arholiad yn Safon 4 yn y ddau bwnc yn un ysgrifenedig. Yr oedd yn rhwym o fod felly, er mwyn penderfynu teilyngdod cymhariaethol yr ymgeiswyr a dyfarnu y gwobrwyon. Nis gellid gwneyd hyn heblaw fod yr atebion yn pasio o dan sylw un Arholydd. Ni ddeallwyd y mater yma, o'r hyn leiaf, ni chariwyd ef allan, yn Hen-Dŷ-Cwrdd, Aberdar, o gwbl, nac yn Trebanos ond yn rhanol. Arholwyd hwynt yno yn yr un dull a'r Safonau ereill, ac y maent wedi pasio yn y Dosbarth blaenaf, ond y maent allan o'r gystadleuaeth am y gwobrwyon.

Gyda golwg ar atebion ysgrifenedig saith o'r ymgeiswyr yn y Safon yma, yr wyf wedi cael boddlonrwydd neillduol ynddynt. Yr oeddynt i gyd wedi gwneyd astudiaeth weddol drwyadl o'r Gwersi ar Marc, yn gystal a'r darn penodedig o lyfr Adeney. Fel ymgais gyntaf mae'r Arholiad yma wedi troi allan yn ardderchog. Gydag ychydig wersi mewn Gramadeg, a rhagor o brofiad mewn cyfansoddi, gwnelai yr ymgeiswyr i gyd ysgrifenwyr Cymraeg rhagorol. Pump o wobrwyon yr oeddid wedi eu haddaw, ond gan fod y ddau iselaf yn y gystadleuaeth wedi gwneyd mor dda, gofala yr Ysgrifenydd y cânt hwythau gydnabyddiaeth fechan yn wobr am eu ffyddlondeb. Diolch yn fawr iddynt i gyd am dori trwy'r garw, a rhoddi cychwyniad anrhydeddus i'r Arholiad ysgrifenedig.

Dyma'r rhestr yn nghyda'r gwobrwyon: -T. G. Thomas, Capelyfadfa, y wobr gyntaf, *Gweithiau Ceiriog*, yn ddwy gyfrol; D. Jones, Rhydygwin, yr ail wobr, *Traethodau Llenyddol Dr. Edwards;* W. Jones, Rhydygwin, y drydedd wobr, *Rhys Lewis;* D. Davies, Pantdefaid, y bedwaredd wobr, *Canwyll y Cymry;* Mary Jonathan, Ciliau, y bumed wobr, *Caban F'ewythr Twm;* Elizabeth Thomas, Capelyfadfa, a Gwilym Ifan Jones, Llandysul, *Yn Ei Gamrau (In His Steps.)*

W. JAMES, *Ysg. y Gymdeithas.*

LLWYNRHYDOWEN.—*Arholwr, Mr. D. E. Jones.*

SAFON I.—DOSBARTH I.

Margaret Anne Evans, Eleanor Evans, Annie Evans, May Evans, David Evans, John Evans, Dan Jones.

SAFON II.—DOSBARTH I.

William Thomas, Griffith Davies, Griffith Griffiths, Margaret Davies, Hannah Evans, Eleanor Evans.

SAFON III.—DOSBARTH I.

Dinah Letitia Jones a David Jones (gydag anrhydedd).

CAPELYBRYN.—*Arholwr, Mr. J. R. Thomas.*

SAFON I.—DOSBARTH I.

Lizzie Thomas, John Daniel Jones, Tom Jones, Daniel Jones, David Jones.

SAFON II.—DOSBARTH I.

Mary Thomas, Simon Evans, Rachel Davies, Margaret Thomas.

GRAIG, LLANDYSUL.—*Arholwr, Parch. Thomas Thomas, Y.H.*

SAFON I.—DOSBARTH I.

Hannah Lloyd, Sarah Lloyd, Mary Lloyd, Martha Lloyd, Samuel Lloyd, Margaret Jones, Anne Jones, Alice Maud Jones, John Thomas, Rachel Thomas, Margaret Thomas, Mary Thomas, Esther Davies, John Dl. Davies, Cerdin Evans, Winnie Richards.

SAFON III.—DOSBARTH I.

Bessie James, Tyddie James, Johnny O. James, Gwilym Ifan Jones, John Owen Jones, Dan Arthur Jones, Tom Evans, David John Evans, Getta Evans, Rachel Davies, Lewis Davies, Elias Davies, Evan Lloyd.

SAFON IV.—DOSBARTH I.

Gwilym Ifan Jones.

PANTDEFAID.—*Arholwr, Mr. W. James, B.A., Y.H.*

SAFON I.—DOSBARTH I.

Lizzie Davies, Lucy Evans, Mary Jane Jones, Rachel Jones,

Anne Jones, Pwllgrafel, Mary Jones, eto, Mary Jones, Pendref, Margaret Jones, Pennant, Anne Jones, Penwalce, Mary Parry, Pontshan, Anne Thomas, eto.

DOSBARTH II.

Eliza Jones a Hannah Jones.

SAFON II.—DOSBARTH I,

Johnny Evans, Gwarllwynoidos.

SAFON III.—DOSBARTH I.

David Davies a Rees Jones (gydag anrhydedd), Sarah Evans, Evan Jones (Green Park), Rachel Jones.

DOSBARTH II.

Evan Jones, Pwllgrafel.

SAFON IV.—DOSBARTH I.

David Davies, Gwarcefel Arms.

BWLCHYFADFA.—*Arholwr, Parch. T. Arthur Thomas,*

SAFON I.—DOSBARTH I.

David Davies, James Jones, David Thomas, Mary Jane Griffiths, Hannah Timothy, Lizzie Jane Griffiths, Anne Evans.

SAFON II.—DOSBARTH I.

Johnny Thomas, Evan Tom Lewis, James Oliver Lewis, Herbert Jones, Anne Evans, Ellen Thomas, Sarah Evans, Mary Hannah Thomas (Llaindelyn), Mary Anne Jones, Elizabeth Thomas, Ellen Davies, Mary Hannah Thomas (Bwlchybryn), Enoch Evans, Evan Tom Thomas, Evan Davies.

SAFON III.—DOSBARTH I.

Eliza Thomas a Margaret Davies (gydag anrhydedd), Frances Jones, Thomas Davies.

DOSBARTH II.

Sarah Davies, Mary Timothy, Evan Davies.

SAFON IV.—DOSBARTH I.

T. G. Thomas ac Eliza Thomas.

CILIAU.—*Arholwr, Parch. D. Evans.*

SAFON II.—DOSBARTH I.

Mary Hughes, Anne Jonathan, Johnny Hughes, Megan Owen, Timothy Jonathan (oll gydag anrhydedd.)

SAFON IV.—DOSBARTH I.

Mary Jonathan.

CAPELYGROES.—*Arholwr, Parch. L. Williams.*

SAFON I.—DOSBARTH I.

Evan Evans, Tim Evans, Anne Jones, Hannah Williams, Mary Grace Jenkins.

DOSBARTH II.

James Davies, Anne Thomas, Judith Mary Davies.

SAFON II.—DOSBARTH I.

David Williams, John Evans, Howell Howells.

ALLTYPLACA.—*Arholwr, Parch. L. Williams.*

SAFON I.—DOSBARTH I.

John Evans, Gwenllian Davies, Tom Walter Thomas, Mary Griffiths, Anne Evans, Mary Evans, Hannah Evans, Elisa Thomas, Margaret Evans, Sarah Jane Thomas, Anne Griffiths, Edith Maud Davies.

SAFON II.—DOSBARH I.

Hannah Ellen Thomas, Hannah Williams, Lizzie Williams, Margaret Evans, Annie Evans.

CAERONEN.—*Arholwr, Parch. E. E. Jenkins.*

SAFON I.—DOSBARTH I.

Daniel J. Thomas, David Ll. Rees, David Jones, Rees W. Rees, David J. Jones, Rachel M. Davies, Tom Lloyd, Violet A. Evans, David Evans, Ellen Evans, Benjamin Rees, Sarah S. Evans.

SAFON II.—DOSBARTH I.

David Jones, Daniel J. Thomas, David J. Jones, Lizzie Davies, Rachel M. Evans—oll gydag anrhydedd.

SAFON III.—DOSBARTH I.

M. A. Davies, E. J. Rees, A. Davies.

CRIBYN.—*Arholwr, Parch. John Davies.*

SAFON I.—DOSBARTH I.

Maggie Jones (gydag anrhydedd), Anne Davies, John Evans, Jane Hughes, Ebenezer Davies, Jane Lloyd, David Jones, James Hughes.

SAFON II.—DOSBARTH I.

Owen Ll. Jones (gydag anrhydedd), Sarah Jones, Daniel Evans, Hannah Mary Lloyd, Richard Evans, Mary A. Evans, Willie Davies, Rachel Evans, Daniel Harries, Martha Evans, John D. Jones, Hannah Davies, Rees Jones, John Jones.

RHYDYGWIN.—*Arholwr, Parch. R. C. Jones.*

SAFON I.—DOSBARTH I.

John William Davies, David Williams, William T. Davies, Isaac D. Jones, Jenkin S. Davies, Thomas L. Jones, Thomas W. Jones, Timothy Davies.

DOSBARTH II.

Gwilym S. Davies.

SAFON II.—DOSBARTH I.

John W. Davies, Joshua Davies, W. T. Davies, Elizabeth Morgans, Daniel Jones, Catherine E. Jones.

SAFON IV.—DOSBARTH I.

David Jones a William Jones.

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.—*Arholwyr, Parchn. D. J. Williams a J. E. Jenkins.*

SAFON I.—DOSBARTH I.

Richard Davies, Willie Davies, James Ifor Davies, Myfanwy Lewis, Hannah Lloyd.

DOSBARTH II.

Maggie Lloyd ac E. A. Morgan.

SAFON III.—DOSBARTH I.

David Davies, Gwilym Griffiths, a Morgan Morgan (gydag anrhydedd), John Davies, Ebenezer Davies, Mrs. Davies.

SAFON IV.—DOSBARTH I.

David Davies, Morgan Morgan, Gwilym Griffiths.

DOSBARTH II.

Mrs. Davies, John Davies, Ebenezer Davies.

TREBANOS.

SAFON I.—DOSBARTH I.

Maggie Bowen, W. John Bowen, Daniel Bowen, Willie Lewis (gydag anrhydedd); W. J. Morgan, Evan Morgan, Morfydd Williams, W. John Bevan, Bessie Saunders, Hannah Lewis.

DOSBARTH II.

Idris Williams, Lewis W. Rees, D. Arthur Bowen.

SAFON II.—DOSBARTH I.

Daniel W. Bowen, W. D. Bowen, Lewis Morgan, Gomer Davies, Llewelyn Bowen, Rees Davies (gydag anrhydedd).

SAFON III.—DOSBARTH I.

Enery H. Morgan, John W. Bowen, Mary Davies, Rachel Anne Bowen (gydag anrhydedd); Margaret Davies, Mary J. Bowen, Mary L. Bowen.

DOSBARTH II.

Lizzie Lewis a Lizzie Bevan.

SAFON IV.—DOSBARTH I.

J. J. Williams, John Hopkin, Benjamin Davies.

T. ARTHUR THOMAS,
Ysg. Adran yr Ysgol Sul.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Llywydd: Parch. R. C. JONES, Llanbedr.
Is-Lywydd: Parch. JENKIN THOMAS, Pendleton.

CYNELIR y Cyfarfod Blynyddol yn Nghapel-y-Fadfa, ger Llandysul, ar y dyddiau Mercher ac Iau, Mehefin 21ain a'r 22ain, 1899, pryd y dysgwylir presenoldeb gweinidogion a chynrychiolwyr yr oll gynulleidfaoedd tufewn i'r Cyfundeb Cymreig, yn gystal ag aelodau a chyfeillion y Gymdeithas o bob man.

Dechreua y gweithrediadau nos Fercher, am 6.30, gyda gwasanaeth crefyddol a dwy bregeth. Cyfarfod Busnes y Gymdeithas am 9.30 boreu dydd Iau. Gobeithiwn y gwnaiff pob aelod a chynrychiolydd ymdrech i fod yn bresenol mewn amser. Yr Anerchiad blynyddol gan y Llywydd am 11. Cyfarfod Pwyllgor Adran yr Ysgol Sul am 1.30. Gwahoddir arolygwyr ac athrawon i roddi help eu cynghor a'u cyfarwyddyd ar yr achlysur. Gwasanaeth crefyddol am 2.30, a phregeth y Gymdeithas gan y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen; yr un am 6.30 gyda dwy bregeth. Gwneir *casgliad* at y Gymdeithas a'r treuliau lleol yn mhob oedfa.

Er mwyn gwneyd i fyny gyfrifon y Gymdeithas erbyn y cyfarfod, taer geisiwn gan y rhai nad ydynt wedi gwneyd hyny yn barod i anfon i mi yn ddioed eu taliadau am y Gwersi, &c. Anfoner y casgliadau* cynulleidfaol ydynt yn ddyledus ar y Sul cyntaf yn Mehefin, sef Mehefin 4ydd, yn gystal a'r tanysgrifiadau blynyddol, i'r Trysorydd—Mr. John Evans, Solicitor, Llandysul.

Bydd cerbydau yn cyfarfod dyeithriaid o Forganwg a manau ereill yn ngorsaf Llandysul erbyn y trên 2.30 prydnawn dydd Mercher. Y mae eglwys Capel-y-Fadfa yn adnabyddus am ei gwresogrwydd a'i brwdfrydedd, a gallaf addaw drostynt y croesaw mwyaf gwresog a brwdfrydig i'r brodyr ar adeg y cyfarfodydd.

W. JAMES, *Ysg. y Gymdeithas.*

Llandysul, Mai 24ain.

---

* Mae Caeronen wedi gwneyd y casgliad yn barod—£1 15s. 9c. Diolch yn fawr iddynt.

NODION A SYLWADAU.

NID oes dim yn ddiweddar wedi cyffroi pob dosbarth o gymdeithas yn Lloegr mor drwyadl â'r ymdrech ar du dau o bapyrau dyddiol Llundain—y *Daily Mail* a'r *Daily Telegraph*—i gyhoeddi argraffiad ar y Sul. Nid wyf yn ystyried fod y Sul yn fwy cysegredig na dyddiau ereill yr wythnos; o leiaf, ni ddylai fod felly. Ond credaf mor drwyadl yn nefnyddioldeb a lles un dydd o orphwys yn yr wythnos oddiwrth waith cyffredin bywyd—i'r corff, i'r meddwl, ac i'r ysbryd - fel yr ymddengys i mi fod unrhyw fudiad yn nghyfeiriad gwneyd i ffwrdd â'r sefydliad yn ddinystriol i les uchelaf y genedl. Coleddir llawer o syniadau ffol am y Sul—am ei natur, y dull o'i gadw, &c.; ac y mae llawer yn eisieu eto cyn ei wneyd yn ddydd o orphwys ac adgyfnerthiad mewn gwirionedd. Ond os llwydda'r ymdrech

uchod, bydd y dylanwad yn ddiamheu yn gweithio yn nghyfeiriad dystrywio y Sul fel dydd gorphwys.

——:o:——

Gwyr rhai o'n darllenwyr yn ddiau am Gyfarfodydd Mai Llundain. Er mwyn y rhai nad ydynt yn gwybod, dymunaf ddyweyd hyn mewn eglurhad: Yn ystod y mis hwn, mae enwadau a chymdeithasau crefyddol a dyngarol o bob math yn cynal eu cyfarfodydd blynyddol. Dechreuant yn gynar yn Ebrill, a pharhânt yn ddyddiol (amryw ohonynt bob dydd, weithiau, yn enwedig yn ystod Mai) hyd tua haner Mehefin. Nis gwn nifer y cymdeithasau hyn, ond gwn eu bod yn lluosog. Yr wyf eleni eto, fel pob blwyddyn er's blynyddau bellach, wedi bod yn darllen hanes y cyfarfodydd sydd wedi eu cynal eisoes, gyda'r canlyniad fy mod wedi cael fy meddianu gan edmygedd a llawenydd wrth feddwl am yr ymdrechion ardderchog a wneir yn mhob cyfeiriad i godi cymdeithas yn ei hol.

——:o:——

Yn ystod y cyfarfodydd eleni, mae amryw areithiau nodedig a phenigamp wedi eu traddodi, llawer syniad prydferth a swynol wedi ei draethu. Efallai mai y fwyaf nodedig o'r areithiau (yn ol fy chwaeth a'm barn i, fodd bynag) oedd eiddo y Parch. Arnold Thomas, Llywydd yr Undeb Cynulleidfaol. Yr wyf wedi ei darllen drosodd a throsodd drachefn, a phob tro mae'n flasus, a theimlad ei bod yn taro cyweirnod crefydd yr ugeinfed ganrif. Ei destyn oedd "Diwedd y Gorchymyn." Mae'r araeth yn neilldduol yn profi un peth i mi, sef, fod mwy o bethau yn nghylch pa rai y cyduna Cristionogion nag sydd o bethau yn nghylch pa rai yr anghytunant, ac fod y pethau yr anghytunir yn eu cylch yn cilio i'r cysgod pan eu cymharir â'r pethau y cydunir yn eu cylch. Y tueddiad amlycaf yn yr eglwysi heddyw yw'r tueddiad i gydnabod y ffaith hon. Unwaith y daw Cristionogion i gydnabod hyn yn gyffredinol, bydd ysbryd cul enwadaeth yr oes bresenol yn mysg y pethau a fu. A ydyw hyn yn freuddwyd rhy ramantus i dd'od i ben?

——:o:——

Un ffaith ag sydd wedi gwneyd argraff ar fy meddwl wrth ddarllen hanes y cyfarfodydd hyn ydyw amldra y cymdeithasau, a maint yr ymdrech a wneir ganddynt i ddwyn y byd o dan ddylanwad Cristionogaeth. Mae cylch eu gweithrediadau hefyd yn amrywio o'r lleol i'r cyfan-fydol. Un o'r rhai mwyaf adnabyddus o'r cymdeithasau hyn yw'r Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor. Yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, dosbarthwyd yn agos i bedair miliwn a haner o Feiblau (neu ranau o'r Beibl) gan y Gymdeithas hon. Er ei sefydliad yn 1804, mae wedi dosbarthu dros 160 o filiynau o gopïau o'r Beibl yn mhob iaith adnabyddus. Nid yw'r uchod ond engreifftiau er rhoi i'r

darllenydd ryw amgyffred o faint y gwaith wneir ganddi. Haws yw ysgrifenu y ffugyrau uchod na sylweddoli yr hyn a olygir ganddynt.

——:o:——

MAE llwyddiant Cymdeithas fel hon yn achos llawenydd, oherwydd mae'r Beibl, gan nad beth syniwn ni am ei natur, yn destyn-lyfr crefyddol sydd yn cynwys yr egwyddorion yn ol pa rai y mae gwir gynydd cymdeithas yn bosibl. Yn ystod y cyfarfod, olrheiniai un siaradwr fawredd Lloegr yn ol i'r Diwygiad Protestanaidd, a phriodolai y cynydd mawr sydd wedi ei wneyd yn mhob cyfeiriad yn Lloegr i'r ffaith fod y Beibl, er yr adeg hono, yn llyfr agored. Dywedai siaradwr arall mai y gwledydd Cristionogol lle na chaniateir i'r bobl ddarllen ac esbonio y Beibl drostynt eu hunain yw y gwledydd pellaf yn ol mewn gwybodaeth, gwaseidd-dra, a chaethiwed, megys yn yr Hysbaen. Yn ol hyn, mae darlleniad rhydd o'r Beibl yn creu awydd am wybodaeth, ac yn meithrin annibyniaeth meddwl a dyhead am ryddid.

——:o:——

UN ffaith arall nas gallwn beidio sylwi arni oedd hon: O'r holl gymdeithasau yn nglŷn a pha rai y cynelir y cyfarfodydd hyn, maent oll yn gymdeithasau Cristionogol—wedi eu dwyn i fodolaeth, wedi eu cynal, a'u gwaith wedi ei wneyd trwy'r blynyddau gan Gristionogion. Dywedir gan rai fod Cristionogaeth wedi ei gweithio allan. Tystia y ffaith wyf newydd gyfeirio ati, yr hon nas gellir ei hanwybyddu, nad yw Cristionogaeth ond megys yn dechreu ar ei gwaith.

——:o:——

MAE'R egwyddor wirfoddol yn amlwg yn fwy ffafriol i fywyd ac effeithiolrwydd a gweithgarwch cyfundebau crefyddol nag ydyw yr elfen orfodol. Nid yn un man y gwelir hyn yn fwy amlwg nag yn Nghymru. Rhwng 1851 a 1895, mae'r Methodistiaid Cymreig wedi gwario tuag at adeiladu addoldai y swm anferth o £1,675,814, o'r swm hwn nid oedd yn ddyled yn 1898 ond £313,588. A phan ystyriwn y symiau sydd yn eisieu yn flynyddol er cynal achosion crefyddol, yn enwedig eu cynal yn y dull rhyddfrydig y gwneir gan y Methodistiaid, mae cyfanswm yr arian sydd wedi ei gasglu ganddynt yn ystod yr amser uchod tuag at bob amcan yn rhwym o fod yn cyrhaedd miliynau lawer. Dywed papyr Eglwysig fod can' mil yn rhagor o Eglwyswyr yn yr Iwerddon heddyw nag oedd yn 1870. Nid oes ond un casgliad i'w dynu oddiwrth hyn—fod sefydliadau a chyfundebau crefyddol yn flodeuog yn unig pan yn gorfod ymddibynu am eu cynaliaeth ar eu pleidwyr.

SYLWEDYDD.

PANT-TEG, GER LLAW CASTELLNEWYDD EMLYN.

CAPEL Undodaidd ydyw y lle uchod, yn mhlwyf Cilrhedyn, ac o fewn i dair milldir a haner i Gastellnewydd Emlyn, yn sir Gaerfyrddin. Cafodd ei adeiladu yn y flwyddyn 1764, a'i ail-adeiladu mewn blynyddoedd ar ol hyny. Pum' mlynedd ar hugain yn ol cafodd ei adgyweirio am y draul o oddeutu can' punt, rhwng prynu y sylfaen a'r gladdfa, pa un oedd cyn hyny o dan amodrwym (*lease*), a hono bron a myned allan, er fod y gynulleidfa ar y pryd yn fach mewn nifer, ac heb fod mewn amgylchiadau da; ond trwy eu hymdrech diflino, a chyfarfod a gwir gyfeillion, llwyddasant i dalu yr holl draul, fel ag y mae y capel heddyw yn rhydd o ddyled. Ond erbyn hyn y mae eisieu adgyweiriad pellach arno, sef cael pen newydd iddo, ag ychydig o fân bethau ereill, yna bydd yn ddyogel am y deugain mlynedd nesaf. Cyrhaedda y gost oddeutu £40, heblaw yr hyn ag y mae y gynulleidfa yn alluog i gyfranu tuag ato. Felly, o dan y cyfryw amgylchiad, y mae y gynulleidfa fechan yn taer erfyn ar eu brodyr a'u chwiorydd Undodaidd i ddyfod i'w cynorthwyo mewn dydd o angen, er gwneyd y lle yn addas i addoli Duw eu tadau ynddo, ac sydd yn dwyn mawr sêl dros yr achos Undodaidd yn nghanol gwlad o Drindodiaid, er yn fach mewn nifer, eto yn gryf mewn ysbryd. Y mae y cyfarfodydd yn cael eu cynal yn rheolaidd, a chynulliad da ar droion, a Mr. Williams, y gweinidog, bob amser yn bresenol, ac yn gwasanaethu, ond pan y mae yn cael ei luddias ar droion gan afiechyd.

Pe byddai i'r gynulleidfa, trwy ryw ddygwyddiad, fyned yn analluog i gynal gwasanaeth crefyddol yn y lle, byddai y Capel a'r Gladdfa yn myned yn eiddo y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor *(British and Foreign Unitarian Association)*, yn unol â'r weithred bryniad a gafodd ei gwneyd yn y flwyddyn 1874.

Unwaith eto, dymunaf ar wir gyfeillion a chyfeillesau yr achos Undodaidd i anfon eu rhoddion mor fuan ag y byddo modd i'r Parch. J. Williams, Unitarian Minister, Pant-teg, Newcasle Emlyn; neu i Mr. S. Hughes, Llwynbedw, Newcastle Emlyn. Cydnabyddir pob rhodd gyda diolchgarwch gwresocaf ar dudalenau yr YMOFYNYDD, os caniata Mr. Golygydd. Y mae Miss Sharpe, o Lundain, eisoes wedi anfon ei rhodd o £3 10s. tuag at yr achos. Gobeithio y gwna nifer o wir Samaritaniaid efelychu y foneddiges anrhydeddus gyda'u rhoddion tuag at achos ag sydd mor deilwng.

Yr eiddoch yn ostyngedig, dros y gynulleidfa,

Llwyn Einon, Castellnewydd Emlyn. JOHN BOWEN.
Mai 17eg, 1899.

WEDI i chwi ddywedyd y gair, y gair yw y meistr, ac efe a ddylai reoli; cyn i chwi ei ddywedyd, chwi yw y meistr.

DOETHINEB grwca ydyw cyfrwysdra; nid oes dim yn fwy niweidiol na bod dynion cyfrwys yn cael eu cyfrif yn ddoeth.

MANION AC HANESION.

CAERONEN.—Cynaliodd Ysgolion Sul Brondeifi, Caeronen, Alltyplaca, a Chapelygroes, eu Cymanfa flynyddol eleni yn y lle uchod, ar y 15fed o Fai. Cafwyd hin ffafriol, a da oedd genym weled gwedd mor lewyrchus, ar y cyfan, ar y gwahanol ysgolion—mewn nifer yn fwy lluosog nag arfer; ar gyfer gwaith y dydd yn fwy parod, ac fel canlyniad, mwy o fudd yn cael ei deimlo yn ngweithrediadau y dydd; a thybiem weled iaith calonau y gwyddfodolion yn argraffedig ar eu gwynebau yn dywedyd, "Da yw i ni fod yma." Arholwyd y gwahanol ysgolion gan y Parchn. John Davies, E. E. Jenkins, ac R. C. Jones. Yn yr hwyr cafwyd dwy bregeth gan y Parchn. John Davies ac E. E. Jenkins, a'r ddwy yn goroniad hapus ar holl weithrediadau y dydd. Rhoddodd eglwys Caeronen roesawiad i bawb teilwng ohoni ei hunan, ac o'r achos.

CAPEL-Y-FADFA.—Fe dderbyniwyd yn ddiweddar i gymundeb yr eglwys uchod ddau-ar-bymtheg o aelodau newyddion. Mae y gynulleidfa yma, er heb weinidog er's yn agos i dair blynedd, yn parhau yn ei sêl a'i bywiogrwydd crefyddol. Mae Llwynrhydowen a hwythau ar hyn o bryd yn dysgwyl yn bryderus am atebiad i'r alwad unfrydol maent wedi roddi i ŵr ieuanc o un o'n colegau. Llwyddiant mawr iddo, ddywedaf i, os ymgymera â'r gwaith ar ddiwedd tymhor ei efrydiaeth.—*G. I.*

ADDYSG GREFYDDOL YN EIN HYSGOLION DYDDIOL.—Yn Liverpool mae y gwahanol enwadau wedi penderfynu i gael catecism yr Eglwysi Rhydd (*Free Churches*), i'w ddarllen yn eu Hysgolion Dyddiol; ac y mae y Parch. T. Lloyd Jones yn codi ei lais yn uchel yn erbyn hyn. Ysgrifena i'r Wasg yn rymus iawn ar y pwnc, ond, ofnwn, i nemawr pwrpas. Mae y Parch. R. J. Jones, M.A., yn ymladd yn erbyn yr un ysbryd sectyddol yn Aberdar. Dygodd y pwnc o flaen y Bwrdd Ysgol, ond trechwyd ef. Mae y Rheol Aur yn aros o hyd am gael ei hactio yn mywyd y werin.

PRIODAS.

MAI 6ed, yn Sant Ioan, Clydach, unwyd mewn hardd briodas Mr. David J. Bowen, Trebanos, â Miss Mary Elizabeth John, Pontardawe.

MARWGOFION.

EBRILL 21ain, yn 47 oed, Eliza, anwyl briod Evan Evans, Gwaralltferdre. Yr oedd Mrs. Evans yn ddynes dawel a hawddgar, ac iddi barch mawr gan ei holl gydnabod. Nid oedd ei hiechyd yn dda er's tro, a bu yn gystuddiol iawn am rai wythnosau cyn ei marwolaeth. Y dydd Llun canlynol, cludwyd ei gweddillion marwol i orwedd yn mynwent Capel-y-Fadfa, lle bu yn aelod ffyddlon am flynyddau. Ar ddydd ei hangladd, daeth tyrfa luosog yn nghyd o bell ac agos i dalu y gymwynas olaf iddi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur galarus yn doddedig iawn gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Mae ei phriod wedi colli cymhares ddiwyd a charuaidd, a'r plant wedi eu hamddifadu o fam anwyl a thwymgalon; ond bydded iddynt ymdawelu mewn gostyngeiddrwydd gwiw, gan lwyr gredu ei bod yn gorphwys yn ddyogel yn nghysgod deheulaw y Tad goreu, allan o gyrhaedd pob gofid, loes, a chlwyf.

EBRILL 22ain, yn 84 mlwydd oed, Mary Jones, Rhydyfydir, Llanfihangel-Ystrad. Annibynwraig ydoedd, ac yn aelod yn nghapel Ty'nygwndwn, ond teilwng yw o barchus goffadwriaeth ar dudalenau yr YMOFYNYDD. Gadawodd i alaru ar ei hol fab a merch, y ddau yn aelodau yn nghapel Rhydygwin, a'r olaf yn briod â Mr. David Hughes, arweinydd y gân yn yr un capel. Mwynhaodd iechyd da hyd o fewn ychydig amser i'w marwolaeth. Yr oedd yn wraig dda, ddiwyd, a diniwed, yr hyn oedd yn ei gwneyd yn gymeriad a berchid ac a gerid gan bawb a'i hadwaenai. Hebryngwyd ei gweddillion marwol y Mercher canlynol gan dorf luosog i orphwys yn mynwent Eglwys y plwyf. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan ei gweinidog, ac wrth y drws gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin.

EBRILL 26ain, ar ol blynyddoedd o gystudd ysgafn, yn 82 oed, Mary Jones, gynt o Gelligwefrwch, Llanfihangel-Ystrad, ond yn ddiweddar o Grugymaen, Llanwenog. Claddwyd hi yn mynwent Ystrad, a gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y tŷ gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Gadawodd yr hen chwaer dda hon un brawd mewn oedran teg i alaru yn ddwys ar ei hol. Yr adgof o'i rhodiad hardd a'i hamrywiol rinweddau fyddo, yn llaw Duw, yn foddion i'w gymodi â'r ysgariad tymhorol hwn. Y mae awr yr ail-gyfarfyddiad yn agoshau.

MAI 2il, yn 79 oed, Thomas Thomas, cooper, Cribyn, ar ol ychydig ddiwrnodau o gystudd. Claddwyd ef y dydd Gwener canlynol yn mynwent Ystrad, pryd y daeth tyrfa luosog yn nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Gadawodd un chwaer i alaru ar ei ol. Pregethwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

MAI 2il, yn 88 mlwydd oed, David Bowen, Gellionen Uchaf, ger Clydach. Claddwyd ef y Sadwrn canlynol wrth Gellionen, y Parch. T. J. Jenkins yn gwasanaethu. Digonwyd ef â hir ddyddiau ar y ddaear, ïe, a llawer ohonynt, ysywaeth, yn boen a blinder iddo. Mae pob oedran yn myned i ffordd yr holl ddaear. Dyma un o aelodau hynaf eglwys Gellionen wedi ei dori i lawr eto, ar ol y cewri blaenorol. Gyfeillion ieuainc hoff, ymdrechwn lanw lleoedd yr hen bobl. Gwelir ei eisieu mewn llawer cyfeiriad. Mae ei briod anwyl wedi blaenu er's blynyddoedd i barotoi lle iddo. Gwna dail y wig agos gerdd felus ar ei fedd unig. Alarus deulu, ymgysurwch yn nghariad Duw, fel y caffoch dangnefedd.

Os ydyw dail yr haf yn d'od,
Mae pobl y byd yn myn'd;
A d'od i fyn'd mae pawb sy'n bod;
Ffarwel, ein hanwyl ffrynd.

MAI 7fed, Catherine Ellen Jones, merch fechan Thomas ac Elizabeth Jones, Brondeifi Cottage, ger Llanbedr, yn wyth mlwydd oed. Gwasanaethwyd yn y tŷ ar ddydd ei hangladd gan y Parch. R. C. Jones. Claddwyd yr hyn oedd farwol o'r fechan yn mynwent eglwys Llanfairclydogau.

MAI 8fed, Evan Daniel, baban bychan John a Sarah Davies, Parc, ger Ciliau, yn bum' wythnos oed. Claddwyd ef yr Iau canlynol yn mynwent Eglwys Llanfihangel-Ystrad. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams.

MAI 8fed, yn 72 oed, William Richards, saer maen, Cefncoed, ar ol cystudd yn ymestyn dros amryw fisoedd. Yr oedd Mr. Richards wedi bod yn dal cysylltiad â'r achos yn yr Hen-Dy-Cwrdd am flynyddau meithion; ac ar adeg ei farwolaeth, efe oedd un o dri neu bedwar o'r hen aelodau sydd yn aros o dô ag sydd wedi myned i ffordd yr holl ddaear. Gadawodd weddw i wylo colled ar ei ol. Y Sadwrn dilynol, claddwyd ei weddillion yn mynwent yr Hen-Dŷ-Cwrdd, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog.

PAN bydd llawer cadben wrth y llyw, sudda y llong.

Y CYFEILLION goreu yw y rhai a anogant i ddaioni.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Merthyr Tydfil.